University of South Wales
Prifysgol De Cymru

GWEITHDREFN AR GYFER ADRODD AM BRYDERON YNGHYLCH MYFYRWYR ÔL-GOFRESTRU AR GYRSIAU NAD YDYNT YN ARWAIN AT ANODIAD/COFRESTRIAD PELLACH

1. Dylid defnyddio'r Weithdrefn hon lle na ellir cymhwyso'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer gan fod y myfyriwr yn fyfyriwr ôl-gofrestru ac nid ydynt ar gwrs sy'n arwain at anodiad/cofrestriad pellach, ond maent wedi cyflawni gweithred o gamymddwyn, neu fod gan aelodau staff bryderon am eu gweithredoedd neu eu hymddygiad.

2. Os oes gan aelod o staff bryderon ynghylch gweithredoedd neu ymddygiad myfyriwr cofrestredig, dylent eu hadrodd i'w Bennaeth Pwnc.

3. Dylid adrodd am unrhyw gamymddwyn tybiedig yn dilyn y trafodaethau uchod. Dylid cwblhau Ffurflen Honiad o Gamymddwyn a'i hanfon at yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr. Yna bydd yr amgylchiadau'n cael eu hymchwilio iddynt gan ddefnyddio'r Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr.

4. Unwaith y penderfynir ar ganlyniad, naill ai ar lefel cyfadran neu ar lefel prifysgol, bydd y cofrestrydd uchaf yn y gyfadran yn adrodd y canlyniad i'r corff statudol/proffesiynol perthnasol. Lle bo'n briodol, bydd cyflogwr y myfyriwr hefyd yn cael gwybod.

<u>Rheoliadau a Gweithdrefnau Cysylltiedig</u>
Rheoliadau Camymddwyn Anacademaidd
Gweithdrefn ar gyfer Ymchwiliadau Disgyblu
Gweithdrefn ar gyfer Gwrandawiadau Disgyblu/Addasrwydd i Ymarfer
Gweithdrefn ar gyfer Ceisiadau am Adolygiad
Gweithdrefn ar gyfer Ystyried Cynrychiolaeth Gyfreithiol
Gweithdrefn Asesu Risg
Rheoliadau a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol
Rheoliadau a Gweithdrefn Cymorth i Astudio